**Teitl:** Gweithiwr Cymorth Cymunedol

**Lleoliad:** Opsiynau Cymunedol (Gwahanol Leoliadau)

**Cyfarwyddiaeth:** Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Darparydd

**Swydd Rhif:** BG03040

**Cyflog:** Gradd 5 (£27,334 - £30,296) y flwyddyn / Pro rata)

**Oriau:** 22.5 awr

**Contract:** Parhaol

**Crynodeb Swydd**

Mae Gwasanaethau Oedolion Cyngor Blaenau Gwent wrthi'n recriwtio ar gyfer Weithiwr Cymorth Cymunedol i gyflwyno darpariaeth gwasanaeth ansawdd uchel o fewn y Gwasanaeth Opsiynau Cymunedol (Gwasanaethau Dydd).

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ein cefnogi i ddatblygu gwasanaethau sy'n canoli ar y person a hefyd â ffocws ar ddeilliannau ar gyfer oedolion gydag ystod eang o anableddau i gyflawni eu potensial llawn.

Bydd deiliad y swydd yn bennaf yn cefnogi'r adran wrth gyflwyno model gwasanaeth allgymorth o fewn y gymuned yn ogystal â chefnogi gweithgareddau mewn safleoedd o fewn adeilad.

**Hysbyseb Lawn**

Mae tri gyfle cyffrous ar gael o fewn y Tîm Opsiynau Cymunedol Gwasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Dydd) ar gyfer Gweithiwr Cymorth Cymunedol.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cefnogi unigolion gydag ystod eang o anableddau yn y gymuned a hefyd mewn safleoedd o fewn adeilad i'w galluogi i gyflawni eu deilliannau, gan hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn hyblyg wrth gefnogi gofynion y gwasanaeth a gall fod angen iddynt weithio gyda'r nos/ar benwythnosau ac ar wyliau banc (pro rata).

I gael manylion pellach gweler ein Disgrifiad Swydd a Manyleb Person.

**Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch <u>Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg</u>**

**Dyddiad Cau:** 27th Mehefin 2024

**Dyddiad Cyfweliadau:** I'w gadarnhau